

# CYNGOR CYMUNED LLANFROTHERN

## COFNODION GORFFENNAF 3 2017

### Presennol

Y Cyngorydd Nia Povey, Gareth Thomas, Glyn Griffiths, Dafydd Watts,  
Rhydwen Roberts

1. **Ymddiheuriadau**

Cyngorydd Nyfain Wynn, Richard Jones a Llio Griffiths

2. **Datgan Diddordeb**

Dim

3. **Aelodau i arwyddo Ffurflen Derbyn Swydd**

Arwyddwyd Ffurflen Derbyn Swydd gan yr Aelodau hynny nad oedd wedi gwneud hynny.

4. **Cadarnhau Cofnodion 15 Mai**

Cymeradwywyd

5. **Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Sbwriel**

Nid yw'r sbwriel a'r darnau pren y tu allan i'r Ganolfan Gymunedol wedi eu clirio. Penderfynwyd gofyn i Bennaeth yr ysgol drefnu eu symud unwaith eto.

**5.2 Gwaith Gwrifoddol Ysgol Ardudwy.**

Cytunwyd y medrai'r disgyblion wenud gwaith tebyg i'r llynedd sef glanhau a chwynnu o gwmpas siop y pentref a'r Ganolfan. Yr un trefniadau ag o'r blaen.

### **5.3 Treth Annomestig Y Ganolfan**

Oherwydd fod treth annomestig Y Ganolfan wedi dyblu, cytunwyd fod y Clerc yn edrych ar sut i apelio yn erbyn y dyfarniad. Yn ogystal, mae angen edrych ar y defnydd o'r Ganolfan a'r gwerth am arian cyffredinol o'i defnyddio ond tua 6-7 gwaith y flwyddyn. Dim ond y Cyngor Cymuned sy'n defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd a hynny unwaith bob rhyw ddau fis, ond mae costau cynnal a chadw, trydan, yswiriant, offer tan yn gostau sylweddol. Mae angen ystyried felly ydy cadw'r Ganolfan yn gwneud synnwyr ariannol ac yn darparu gwerth am arian.

### **5.4 Torri Coed**

Mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn ble yn union mae angen torri'r coed sy'n amharu ar y ffordd. Cadarnhawyd mai o'r Oakley Arms tuag at Rhyd ar y B54110 mae'r broblem.

### **5.5 Comisiynydd Y Gymraeg – Swyddfa Archwilio Cymru/BDO**

Derbyniwyd llythyr gan y Comisiynydd yn gofyn am ddyddiad pryd y bu i'r Clerc, Ken Williams gysylltu a'r Archwilwyr Allanol BDO a derbyn gwasanaeth uniaith Saesneg. Y Clerc i edrych ar gofnodion Ken Williams ac ymateb i'r Comisiynydd.

### **5.6 Arosfan Fysiau**

Cafwyd ateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd ar ddarparu arosfan fysiau yn Llanfrothen. Ni fyddai Cyngor Gwynedd yn talu am arosfan na chost gosod. Yn ogystal byddai'n rhaid defnyddio arosfan o fath Chiltern sy'n cael eu cyflenwi gan Macemain. Bydd y gost yn rhai miloedd o bunnoedd.

Yn ogystal, mae'n debyg y bydd angen gosod yr arosfan ar goncrid fel bo modd i deithwyr anabl gael mynediad rhwydd iddo.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud gwaith ymchwil pellach am yr union brisiau. Byddai hefyd yn werth holi a fyddai Express Motors yn fodlon denfyddio maes parcio'r siop neu'r ffordd o flaen y siop fel arosfan, gan y byddai'n bosibl i deithwyr gael peth cysgod drwy sefyll o dan do'r siop.

## **6. Biliau i'w talu**

- Treth Annomestig Y Ganolfan - £105.00
- AON Yswiriant blyneddol £964.26
- Snowdonia Design and Print £141.60
- Ken Williams costau terfynol Clerc £1017.44
- Cronfa'r Cadeirydd £100.00

## **7. Ceisiadau Cynllunio**

Cafwyd 2 gais cynllunio a ddirprwyd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, rhwng cyfarfod Mai a'r cyfarfod hwn.

- Cais i osod paneli solar Tyn Llwyn Cornel, Ynysfor, Llanfrothen
- Cais i newid defnydd uned wyliau Fferm Llan, Llanfrothen

Dim gwrthwynebiad

## **8. Materion Eraill**

### **8.1 Peintio giatau mynwent Tan Lan**

Mae angen peintio giat y fynwent. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu hyn.

### **8.2 Mynwent Tan Lan**

Cydymdeimlwyd ag Idris ac Ifan, sy'n torri gwair y fynwent, ar eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar.

Mae'r Clerc wedi trefnu y byddant yn torri gwair y fynwent yn fuan, ond nodwyd hefyd yr angen i dorri'r coed hynny sy'n tyfu rhwng y beddi a rhoi chwynladdwr arnynt.

### **8.3 Grantiau**

Nododd y Cynghorydd Dafydd Watts ei bod hi werth edrych os oes unrhyw grantiau i'w cael ar gyfer gweithgareddau cymunedol neu fusnesau lleol. Hwn yn eitem i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

### **8.4 Llwybrau Cerdded**

Gan na fydd Cyngor Gwynedd yn talu am gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus o'r flwyddyn nesaf ymlaen, wrth ystyried praesept 2018/19, bydd angen trafod os oes angen cynyddu'r praesept oherwydd hyn.

### **8.5 Delwedd**

Cytunodd y Clerc i edrych ar delerau cytundeb Delwedd o ddarparu a gwefan. Bydd y Cynghorydd Dafydd Watts yn danfon manylion o'r cytundeb presennol ato.

### **8.6 Ymddeoliad Ken Williams**

Penderfynwyd prynu anrheg fel arwydd o werthfawrogiad am waith cydwybodol Ken Williams fel Clerc am gyfnod hirfaith.

### **8.7 Trwsio pibell y Ganolfan**

Mae angen trwsio pibell sy'n gollwng dwr y tu allan i'r Ganolfan. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu i wneud y gwaith.

**Cyfarfod Nesaf Medi 4 2017 am 7:30 yr hwyr**